Datganiad i'r News Datganiad

Embargo Llym: 00:01 Dydd Gwener 10 Chwefror 2012

Y GRONFA'N CEFNOGI PROSIECTAU CYMRU I DDATBLYGU 'LLAIS Y BOBL'

Mae grwpiau cymunedol ledled Cymru'n rhannu mwy na £300,000 a ddyfarnwyd gan y Gronfa Loteri Fawr heddiw i'w helpu i ddatblygu prosiectau sydd â'r nod o roi llais cryfach i'w cymunedau.

Bydd **pymtheg** prosiectau ym mhob cwr o Gymru'n rhannu cyfanswm o **£314,115** mewn grantiau datblygu a ddyfarnwyd o dan rownd gyntaf rhaglen **Llais y Bobl £12 miliwn y Gronfa Loteri Fawr**, sydd â'r nod o helpu cymunedau yng Nghymru i ddylanwadu ar y polisïau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ***(rhestr lawn ar ddiwedd y datganiad)***.

Wedi'i arwain gan eu **Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS)** lleol, bydd pob prosiect bellach yn datblygu eu cynigion ac yn ymgeisio am yr ail rownd ariannu a fydd yn dyfarnu **£500,000 - £1.5 miliwn** ar gyfer prosiectau sy'n cynyddu cyfleoedd i ddinasyddion gymryd rhan wrth gynllunio a rhedeg gwasanaethau a phrosiectau sy'n ymateb i anghenion eu cymunedau ac yn datblygu buddion cymunedol.

Yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod helaeth o fudiadau a budd-ddeiliaid gan gynnwys trigolion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, bydd disgwyl i'r CGS ddatblygu prosiectau a all ddylanwadu ar benderfyniadau lleol megis datblygu llais cymunedol effeithiol ar gyfer grwpiau lleiafrifol, pobl anabl, pobl ifanc a grwpiau eraill sy'n anodd eu cyrraedd.

Yn **Ynys Môn, Gogledd Cymru**, bydd **Medrwn Môn** yn gwario **£25,000** ar ddatblygu eu cynigion i gyflwyno 10 prosiect dros bedair blynedd i annog pobl hŷn, pobl iau, pobl anabl, pobl ddigartref a grwpiau difreintiedig ac wedi'u tangynrychioli i ddatblygu sgiliau a hyder i'w galluogi i ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau a chymryd rhan wrth gynllunio a cyflwyno gwasanaethau ar yr ynys.

Ymhellach i'r Dwyrain, bydd **NEWVOL** yn **Sir Ddinbych** yn gwario **£22,600** ar ddatblygu eu menter ar gyfer rhedeg portffolio o chwe phrosiect ledled y wlad a fydd yn targedu menywod a phobl ifanc sy'n fregus ynghyd â chymunedau **Bruton Park**, **Dinbych Uchaf** a rhannau **Gorllewinol** a **Deheuol** o'r **Rhyl**.

Mwy i ddilyn..... 1 o 6

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol Supported by The National Lottery®

Lleisiau Lleol 2

Yng **Ngheredigion**, bydd grant o **£23,753** i **Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion** yn eu helpu i wireddu eu huchelgais o redeg saith prosiect ar draws y sir a fydd yn targedu dinasyddion sydd wedi'u dadrithio, gan gynnwys gofalwyr, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl iau a'r rhai sydd â nam ar y golwg.

Yn **Sir Benfro** gerllaw, bydd **Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro** hefyd yn defnyddio **£22,028** i ddatblygu prosiect a fydd yn cynnwys aelodau'r gymuned sydd wedi'u dadrithio, p'un a yw hynny oherwydd rhesymau daearyddol neu ar gyfer grwpiau penodol gan gynnwys gofalwyr, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl iau a'r rhai sydd â nam ar y golwg.

Gan fod **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)** yn cwmpasu pedwar awdurdod lleol, maent yn gymwys i wneud dau gais ac mae dau grant datblygu wedi'u dyfarnu iddynt. Mae un prosiect yn cynnwys siroedd **Blaenau Gwent** a **Chaerffili** ble bydd grant o **£22,156** yn cael ei wario ar ddatblygu cynigion ar gyfer portffolio o wyth prosiect a fydd yn canolbwyntio ar ddod â defnyddwyr gwasanaethau ynghyd i rannu gwybodaeth, profiad ac arfer gorau. Bydd y prosiect yn targedu grwpiau gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl, pobl hŷn, goroeswyr strôc, tenantiaid, teuluoedd a chymunedau gwledig sy'n anodd eu cyrraedd.

Bydd grant datblygu arall o **£22,156** yn galluogi **GAVO** i ddatblygu cynigion i redeg prosiect a fydd yn targedu grwpiau yng **Nghasnewydd** a **Sir Fynwy**, gan gynnwys pobl hŷn, goroeswyr strôc, tenantiaid sy'n anodd eu cyrraedd, pobl yr effeithiwr arnynt gan salwch meddwl ac anableddau dysgu, pobl ifanc du a lleiafrifoedd ethnig, pobl â namau synhwyraidd a phlant a theuluoedd.

Meddai **Cyfarwyddwr Cronfa Loteri Fawr Cymru, John Rose**: “Mae'r rhaglen hon yn darparu mwy o gyfle i gymunedau Cymru leisio eu barn. Mae'n ymwneud â phobl yn dweud eu dweud i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymuned ac ar eu bywydau eu hunain.

Rydym am i'r rhaglen hon eu cefnogi i fod yn fwy cynaliadwy ac yn wydn i heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y dyfodol yn ogystal â datblygu ymdeimlad mwy cryf o gymuned."

I gael mwy o wybodaeth am y Gronfa Loteri Fawr a sut y gallwch chi ymgeisio am arian, ewch i www.cronfaloterifawr.org.uk neu ffoniwch **0300 123 0735.**

Rhestr lawn y prosiectau:

Ynys Môn – 1 Grant gwerth £25,000			
Medrwn Môn	Ynys Môn	Bydd y portffolio yn cyflwyno 10 prosiect dros 4 blynedd i annog pobl hŷn, pobl ifanc, pobl ag anableddau, pobl ddigartref, grwpiau a chymunedau dan anfantais ac wedi'i tan gynrychioli i ddatblygu sgiliau a hyder i'w galluogi i gysylltu â darparwyr gwasanaeth a chymryd rhan yng nghynllunio a chyflwyno gwasanaethau yn Ynys Môn.	£25,000
Blaenau Gwent, Caerffili – 1 Grant gwerth £22,156			
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent	Blaenau Gwent a Chaerffili	Bydd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn rheoli portffolio o 8 prosiect ledled awdurdodau lleol Blaenau Gwent a Chaerffili. Bydd pob prosiect yn gweithio gydag aelodau'r gymuned leol/cymuned o ddiddordeb, gan ganolbwyntio ar ddod â defnyddwyr gwasanaethau ynghyd i rannu gwybodaeth, profiad ac arfer gorau. Mae grwpiau targed yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl, pobl hŷn, goroeswyr strôc, tenantiaid anodd eu cyrraedd, teuluoedd a chymunedau gwledig.	£22,156
Pen-y-bont ar Ogwr - 1 Grant gwerth £10,000			
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr	Pen-y-bont ar Ogwr	Bydd Cyngor Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont Ar Ogwr yn rheoli portffolio o 7 prosiect ledled ardal yr awdurdod lleol. Bydd chwech o'r prosiectau'n gweithio gyda chymunedau buddiant lleol a bydd un yn gweithio gyda'r gymuned leol yn Nyffryn Ogwr. Bydd y portffolio'n datblygu, yn cryfhau ac yn cysylltu rhwydweithiau presennol ac yn sefydlu rhai newydd ar gyfer cymunedau nad ydynt wedi'u cynrychioli ar hyn o bryd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r grwpiau a dargedir yn cynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, rhai sydd ac anawsterau dysgu, gofalwyr ifanc, y gymuned Lesbiaidd, hoyw, Deurywiol a Thrawsryw a'r rhai sy'n hunan niweidio.	£10,000
Caerdydd, Bro Morgannwg - 1 Grant gwerth £25,000			
Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd	Caerdydd a Bro Morgannwg	Bydd Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd mewn partneriaeth â Chanolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro yn rheoli portffolio o naw prosiect ar draws awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg, gan weithio gyda chymunedau o ddiddordeb a chymunedau daearyddol. Mae'r grwpiau targed a fydd yn elwa o'r prosiect yn cynnwys: Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), gofalwyr a phobl hŷn, pobl ag anghenion iechyd meddwl, pobl â chyflyrau tymor hir a phobl ag anableddau dysgu.	£25,000
Ceredigion – 1 Grant gwerth £23,753			
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion	Ceredigion	Bydd Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion yn rheoli portffolio o 7 prosiect ledled y sir yn cynnwys pobl nad ydynt erioed wedi cysylltu â darparwyr gwasanaeth o'r blaen. Mae grwpiau targed yn cynnwys gofalwyr, pobl â materion iechyd meddwl, pobl ifanc a'r rhai sydd â nam ar y golwg. Mae prosiect sydd â'r amcan o wella gwasanaethau'r heddlu a prosiect amgylcheddol arloesol.	£23,753

Conwy – 1 Grant gwerth £25,000			
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Bydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddoli Conwy yn rheoli portffolio o 7 prosiect i'w cyflwyno dros 6 mlynedd i hwyluso, galluogi ac annog pobl yn y grwpiau 'anodd eu cyrraedd' i wella cyflwyniad gwasanaeth yn eu cymunedau drwy ddarparu gweithgareddau adeiladu hyder, hyfforddiant a chyfranogi, gan ddatblygu fforymau i alluogi pobl i leisio eu barn ac annog cymryd rhan wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.	£25,000
Sir Ddinbych – 1 Grant gwerth £22,600			
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Bydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddoli Conwy yn rheoli portffolio o 7 prosiect i'w cyflwyno dros 6 mlynedd i hwyluso, galluogi ac annog pobl yn y grwpiau 'anodd eu cyrraedd' i wella cyflwyniad gwasanaeth yn eu cymunedau drwy ddarparu gweithgareddau adeiladu hyder, hyfforddiant a chyfranogi, gan ddatblygu fforymau i alluogi pobl i leisio eu barn ac annog cymryd rhan wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.	£22,600
Sir y Fflint – 1 Grant gwerth £25,000			
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint	Sir y Fflint	Bydd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn rheoli portffolio o chwe phrosiect ar draws ardal awdurdod lleol Sir y Fflint sy'n canolbwyntio ar ddulliau cyfranogi gan ddefnyddio cyfryngau newydd, y celfyddydau a rhwydweithio cymdeithasol. Bydd y prosiectau unigol yn cael eu dewis o restr fer o 14 sy'n seiliedig ar themâu: Cyllidebu Cyfranogol; Rhwydweithio Cymdeithasol: Cyfryngau Digidol (fideo a ffotograffiaeth); Celfyddydau Perfformio; Cyfranogiad Cymunedol / Cynllunio ar gyfer Sefyllfaoedd Go Iawn; a Bancio Amser. Mae'r grwpiau targed yn cynnwys pobl hŷn ac anabl a byddant yn cynnwys lleisiau coll eraill.	£25,000
Merthyr Tudful – 1 Grant gwerth £18,101			
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful	Merthyr Tudful	Bydd Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful yn rheoli portffolio a chwe phrosiect ar draws ardal awdurdod lleol Merthyr Tudful. Bydd pump o'r prosiectau'n cydweithio â chymunedau o ddiddordeb lleol a bydd un yn gweithio mewn cymuned ddaearyddol gyda thrigolion mewn tai cymdeithasol. Bydd y portffolio'n cryfhau rhwydweithiau presennol yn ogystal â sefydlu rhai newydd ar gyfer cymunedau nad ydynt wedi'u cynrychioli ar hyn o bryd ym Merthyr Tudful. Mae'r grwpiau targed yn cynnwys pobl hŷn ac iau, cymunedau teithwyr a gweithwyr mudol, a phobl anabl.	£18,101
Sir Fynwy, Casnewydd – 1 Grant gwerth £22,156			
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent	Casnewydd a Sir Fynwy	Bydd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn rheoli portffolio o 8 prosiect ledled awdurdodau lleol Casnewydd a Sir Fynwy. Bydd pob prosiect yn gweithio gydag aelodau'r gymuned leol/cymuned o ddiddordeb, gan ganolbwyntio ar ddod â defnyddwyr gwasanaethau ynghyd i rannu gwybodaeth, profiad ac arfer gorau. Mae'r grwpiau targed yn cynnwys pobl hŷn, goroeswyr strôc, tenantiaid anodd eu cyrraedd, pobl yr effeithiwr arnynt gan salwch meddwl ac anableddau dysgu, pobl ifanc BME, pobl â namau synhwyraidd a phlant/teuluoedd.	£22,156

Sir Benfro – 1 Grant gwerth £22,028			
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro	Sir Benfro	Bydd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Benfro yn rheoli portffolio amrywiol o 10 prosiect ar draws y sir, y maent i gyd yn ymwneud â phobl nad oes ganddynt hanes o gyfranogiad cymunedol. Bydd rhai o'r prosiectau'n cydweithio â chymunedau daearyddol neu gymunedau o ddiddordeb, a bydd eraill yn ymchwilio i ffyrdd arloesol o gynnwys dinasyddion yn y broses o ddylunio a chyflwyno gwasanaethau lleol. Mae'r grwpiau targed yn cynnwys gofalwyr, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, pobl iau a'r rhai sydd â namau synhwyraidd.	£22,028
Powys – 1 Grant gwerth £25,000			
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys	Powys	Nod y portffolio yw grymuso dinasyddion i ddylanwadu'n well ar ddylunio a chyflwyno gwasanaethau statudol ym Mhowys. Bydd y grwpiau buddiolwyr yn bobl ag iechyd meddwl gwael, gofalwyr, plant a phobl ifanc, dioddefwyr cam-drin domestig, pobl hŷn arunig a phobl ag anhwylderau niwrolegol.	£25,000
Rhondda Cynon Taf – 0 Grant gwerth £0			
Interlink RCT	Rhondda Cynon Taf	Gwahoddir y mudiad hwn i gam 2, ond ni ofynnodd am grant datblygu.	£0
Abertawe - 1 Grant gwerth £23,321			
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe	Abertawe	Bydd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe'n rheoli portffolio o 9 prosiect ar draws y sir y maent i gyd yn gysylltiedig â chyfranogiad Abertawe yn Rhwydwaith Dinasoedd Iach Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd. Bydd rhai o'r prosiectau'n gweithio gyda chymunedau daearyddol neu gymunedau o ddiddordeb, a bydd eraill yn gweithio ar draws y sir. Mae'r grwpiau targed yn cynnwys rhieni sy'n ofalwyr, aelodau o gymunedau BME, pobl anabl, menywod sy'n dioddef camdriniaeth, pobl iau a phobl ag anableddau dysgu.	£23,321
Wrecsam - 1 Grant gwerth £25,000			
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Mae'r portffolio o bum prosiect yn anelu at gynyddu cyfleoedd ar gyfer, a gallu pobl leol, i ymwneud yn ystyrlon â chynllunio a chyflwyno gwasanaethau o safon sy'n diwallu eu hanghenion. Bydd y prosiectau'n gweithio dros gyfnod o bedair blynedd gyda phobl hŷn, pobl ag anableddau, pobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig, grwpiau budd cyfartal a phobl sy'n wynebu rhwystrau i gymryd rhan.	£25,000

Mwy o Wybodaeth:

Oswyn Hughes – Swyddfa Wasg y Gronfa Loteri Fawr: 02920 678 207

Cyswllt y tu allan i oriau: 07760 171 431

Llinell Ymholiadau Cyhoeddus: 0300 123 0735 **Ffôn testun: 0845 6021 659**

Mae manylion llawn rhaglenni a dyfarniadau grant y Gronfa Loteri Fawr ar gael yn**:**
www.cronfaloterifawr.org.uk

Nodiadau i Olygyddion

- Yng Nghymru mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dosbarthu tua £100,000 bob dydd mewn arian y Loteri ar gyfer achosion da, sy'n golygu, ynghyd â dosbarthwyr eraill y Loteri, bod y rhan fwyaf o bobl ar draws Cymru o fewn ychydig filltiroedd i brosiect a ariennir gan y Loteri.
- Mae'r Gronfa Loteri Fawr, dosbarthwr mwyaf y Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da, wedi bod yn dosbarthu grantiau i feysydd addysg a'r amgylchedd ac achosion elusennol ers iddi ddod i fodolaeth ym mis Mehefin 2004. Fe'i sefydlwyd gan Senedd y DU ar 1 Rhagfyr 2006.
- Ers i'r Loteri Genedlaethol ddechrau ym 1994, mae 28c o bob punt sy'n cael ei gwario gan y cyhoedd wedi mynd i achosion da. O ganlyniad i hyn mae dros £27 biliwn wedi'i godi a mwy na 370,000 o grantiau wedi'u dyfarnu ar draws meysydd y celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth, elusennau, iechyd, addysg a'r amgylchedd.

Diwedd//
Cyhoeddwyd:
WPN: